

# PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

# RHAGLEN YSGOLION

**Cyfleoedd gwych i ddarganfod, mwynhau a dysgu am dirwedd unigryw**

www.arfordirpenfro.cymru/i-ysgolion-ac-addysgwyr/

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

## RHAGLEN YSGOLION

Nod ein Rhaglen Ysgolion yw helpu athrawon a myfyrwyr i ddysgu mwy am y Parc Cenedlaethol, ei waith a'i flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, gan helpu eich ysgol ar ei thaith gyda'r Cwricwlwm i Gymru.

Blaenoriaethau'r Parc Cenedlaethol:

- **gwytnwch rhag newid yn yr hinsawdd**
- **gwella bioamrywiaeth**
- **cysylltu â natur**
- **meithrin cymuned**

Mae ein tîm profiadol a gwybodus yn gobeithio creu cysylltiadau tymor hir gyda'ch staff a'ch disgyblion ac ysbrydoli pawb i archwilio a gwarchod yr asedau naturiol ar garreg ein drws.

## DIWRNODAU DARGANFOD CYNEFIN

Cynefin: Nid dim ond lle mewn ystyr ffisegol neu ddaearyddol yw "cynefin": mae'n cwmpasu'r gofod hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n siapio'r cymunedau sy'n byw ynddo.

Mae gan Sir Benfro gyfoeth o gyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu tirwedd, cynefinoedd a threftadaeth. Mae ein Rhaglen Ysgolion yn darparu profiadau dysgu hygyrch drwy gydol y flwyddyn. Mae Diwrnodau Darganfod Cynefin yn rhai aml-ddisgyblaeth, sy'n cysylltu'r profiadau dysgu â'r cwricwlwm:

- **gweithgareddau gwyddoniaeth, llythrennedd a rhifedd**
- **ymateb creadigol**
- **mwynhad ystyriol o fanteision iechyd a lles bod yn rhan o'r dirwedd.**
- **bydd Diwrnodau Darganfod Cynefin yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol gyda Pharcmyn a Staff y Ganolfan**

## DIWRNODAU DARGANFOD CYNEFIN



**Crwydro'r Arfordir: traethau, pyllau glan môr, twyni, clogwyni, ogofâu, ynysoedd ac aberoedd.** Gan ddefnyddio cyfleusterau hygyrch a Llwybr Arfordir Penfro, mae llawer o deithiau rhanbarthol a thymhorol cyffrous. Archwiliwch yr amrywiaeth o dirffurfiau, cynefinoedd, safleoedd treftadaeth, cymunedau a golygfeydd o'r llanw a gynigir o amgylch yr arfordir.

**Dolydd a Bwystfilod Bach**



Mae cynefinoedd tir pori yn cynnwys amrywiaeth eang o blanhigion blodeuol, amrywiaeth aruthrol o chwilod peillio a bywyd gwyllt arall. Dewch i ddarganfod rhyfeddodau dôl haf gyda'n Tîm Cadwraeth ac efallai gael eich ysbrydoli i gymryd camau i wella bioamrywiaeth dôl ar dir yr ysgol.

**Twristiaeth a Diwydiant**



Ymchwilio i bwysigrwydd "pobl ar eu gwyliau" i'r economi leol. Beth yw heriau ac effeithiau miliynau o ymwelwyr â'r sir? Pa ddiwydiannau eraill; o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n siapio'r dirwedd?

**Celf Natur**



Mae tirwedd, treftadaeth a byd naturiol Sir Benfro wedi bod yn ysbrydoliaeth i genedlaethau o artistiaid. Archwilio'r dirwedd a natur gyda gwahanol gyfryngau ac annog ymateb creadigol i'r amgylchedd.

FRIENDS of Pembrokeshire Coast National Park — CYFEILLION Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae'r teithiau hyn yn cael cymorth hael gan y Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer 2023 - 2024 Telerau ac Amodau ar ein gwefan



**Gwarcheidwaid Treftadaeth** Gyda'r Archeolegydd Cymunedol, ymchwilio i dreftadaeth leol sy'n rhychwantu'r milenia o'r Palaeolithig i'r Ail Ryfel Byd. Cyfleoedd i gymryd rhan mewn cloddfeydd archaeolegol.



**Mae Anturiaethwyr Bryniau'r Preseli yn mynd ar y mynyddoedd mewn her anturus.** Trecio llwybrau hynafol ar gopa'r byd. Teithiau i gyd-fynd â phwnc, y tymor a'r lleoliad.



**Bwyd a Ffermio** Cewch wybod ble a sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu. Ymweld â ffermydd i ddarganfod gorffennol, presennol a dyfodol ffermio a chynhyrchu bwyd.



**Coed a Choetiroedd gan gynnwys sgiliau Byw yn y Gwyllt.** Cynefin pwysig a chyfoethog i'w archwilio – dysgu am goed a'r bywyd gwyllt maen nhw'n ei gynnal, treftadaeth gofalu am goetiroedd a'u rôl yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Lleoliadau cyfoethog eu hadnoddau sy'n cynnal gweithgareddau fel chwilota am fwyd a byw yn y gwyllt.



**Astudio Afonydd - o'r Tarddiad i'r Môr** Dilyn afon o'i tharddiad ar Fryniau Preseli hyd at yr arfordir. Bydd y disgyblion yn archwilio'r cylch dŵr, cynefinoedd afonydd, yn mesur llif dŵr ac yn dysgu am y ffordd mae pobl yn defnyddio ac yn rhyngweithio â'r afon. Gellir defnyddio afonydd eraill (e.e. Gwaun, Nyfer) yn ôl oedrannau disgyblion a lleoliad ysgolion.

**Cyfarpar maes a chefnogaeth ar gyfer teithiau maes TGAU, Safon Uwch a Phrifysgol**

Cysylltwch â'r Tîm Darganfod i deilwra Diwrnod Darganfod Cynefin.
**darganfod@arfordirpenfro.org.uk.**
**01646 624853**

## DARGANFOD A PHROFI - BYW HANES - DOD Â HANES YN FYW

### Pentref Oes Haearn Castell Henllys



Castell Henllys yw'r unig Bentref Oes Haearn ym Mhrydain sydd wedi cael ei ail-greu ar yr union safle lle'r oedd ein hynafiaid Celtaidd yn byw 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Yma gallwch ddilyn ôl troed llwyth y Dyfedwyr. Mae'r rhaglen ysgolion yn cynnig gweithgareddau addysg treftadaeth sy'n archwilio bryngaer yr Oes Haearn a thirwedd y Parc Cenedlaethol o'i hamgylch.

- **Diwrnod ym mywyd Celtaidd yr Oes Haearn.** Dewch i gwrdd â'r llwyth a gweld sut roedden nhw'n byw, yr hyn roedden nhw'n ei wisgo a beth roedden nhw'n ei fwyta. Dysgwch sut i goginio, adeiladu tŷ crwn a sut i ddod yn rhyfelwr.
- **Byw'n gynaliadwy: crefftau a sgiliau traddodiadol**
- **Traddodiadau llafar adrodd straeon mewn tirwedd chwedlonol**
- **Profiadau hanes byw eraill sy'n edrych ar gyfnod y Rhufeiniaid a'r Oes Neolithig**
- **Cynefinoedd coetir a dŵr croyw.**

I gael y manylion yn llawn, ewch i www.castellhenllys.com, ffoniwch 01239 891319 neu anfonwch e-bost at ymholiadau@castellhenllys.com.

### Castell a Melin Heli Caeriw



Mae hanes cyfoethog Castell a Melin Heli Caeriw yn ymestyn dros 2,000 o flynyddoedd ac mae'n cynnwys marchogion, breninwneuthurwyr, cynllwynion yn ystod Oes Elisabeth a dinistr yn ystod y Rhyfel Cartref. Yr unig Felin Heli wedi'i hadfer yng Nghymru. Mae'r rhaglen a gynigir i ysgolion yn amrywiol ac yn cwmpasu nifer o weithgareddau addysg treftadaeth, gan archwilio hanes y Castell a'i breswylwyr. Gall y sesiynau ganolbwyntio ar gyfnod y Tuduriaid neu fywyd y castell.

- **Straeon y Tuduriaid:** Bydd yr Arglwydd yn cyrraedd y Castell mewn dim o dro! Bydd y disgyblion yn helpu gweision y Castell i baratoi ar ei gyfer, gan roi cynnig ar weithgareddau fel gwehyddu, coginio, gwaith maen, crochenwaith, caligraffeg a pherfformio drama Duduraidd.
- **Sefyllfaoedd hanes byw llawn hwyl a difyr:** Y Twrnamaint Mawr/Cipio'r Castell/Hanes Atgas/Ysgol Marchogion
- **Bwyd, ffermio ac ynni adnewyddadwy yn y Felin Heli**
- **Cynefinoedd aberoedd a dolydd.**

I gael y manylion yn llawn, ewch i www.castellcaeriw.com, ffoniwch 01646 651782 neu anfonwch e-bost at ymholiadau@castellcaeriw.com

## ORIEL TIRLUNIAU A CHANOLFAN YMWELWYR

### Oriel y Parc



Oriel Tirluniau a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc yn Nhyddewi yw cartref Amgueddfa Cymru yn Sir Benfro. Mae'r oriel gelf yn arddangos arddangosfeydd sy'n newid o gasgliadau cenedlaethol sydd â chysylltiad â thirwedd, natur neu dreftadaeth. Mae ymweliad ysgol â'r Ganolfan yn gyfle i ddysgu am y Parc Cenedlaethol drwy'r gofod arddangos:

- **Archwilio'r oriel a'r arddangosfa**
- **Gweithgareddau gweithdy ymarferol a chreadigol gan ddefnyddio tir, adnoddau a chyfleusterau Oriel y Parc**
- **Ymestyn y sesiwn gydag ymweliad dan arweiniad Parcmon â lleoliad o fewn y Parc Cenedlaethol**

Ewch i www.orielyparc.co.uk i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gyfredol o arddangosfeydd ac ymweliadau gan ysgolion.



### Parcmon Ardal y Parc Cenedlaethol yn yr ysgol

- Gwasanaethau neu gyflwyniadau am ddim "Am y Parc Cenedlaethol"
- Prosiectau lleol sy'n cefnogi Blaenoriaethau'r Parc Cenedlaethol
- Ystod eang o sgiliau a phartneriaid i gyflwyno Diwrnodau Darganfod Cynefin

Pwy yw eich Parcmon Ardal?

### Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro:

Mae APCAP yn falch o gydlynu partneriaeth o sefydliadau lleol a chenedlaethol

- Hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored sy'n cefnogi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru.
- Ymgynghoriadau ar dir ysgolion
- Hyfforddiant i athrawon a digwyddiadau
- Astudiaethau achos ac adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm
- Gweler Facebook, Twitter a www.pembrokeshireoutdoorschools.co.uk/cy/



### Hygyrchedd

Mae'r rhaglen ysgolion ar gael i bawb. Holwch ni am offer, cyfleusterau a lleoliadau addas.

### Ffioedd archebu

Hanner diwrnod: £3.50 y disgybl

Diwrnod llawn: £6.00 y disgybl

Mae isafswm ffi archebu o £85 ar gyfer archebion gan ysgolion.

**e-bost: darganfod@arfordirpenfro.org.uk.**